

## 'Lleisiau o Lawr y Ffatri' yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr

Erbyn hyn, ar ôl llwyddiannau sesiynau Eisteddfodau Bro Morgannwg a Dinbych yn 2012 a 2013, mae cryn edrych ymlaen at sesiwn Archif Menywod Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Eleni, doedd dim rhaid i'r is-bwyllgor bach o bedair ohonom, Siân Rhiannon Williams, Rosanne Reeves, Luned Meredith a minnau, bendroni llawer am thema addas ar gyfer y sgwrs. Wedi'r cyfan roedd y prosiect 'Lleisiau o Lawr y Ffatri' yn cyrraedd ei benllanw a chyda thua 60 o gyfweiliadau wedi'u cynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg o fewn dalgylch yr eisteddfod yn Llanelli, byddai digon o ddefnydd difyr i'n diddori a'n haddysgu.

Braf felly oedd gweld cynulleidfa niferus o dros 70 - gyda'r fwyaf mae'n debyg yng nghyfarfodydd Pebyll y Cymdeithasau eleni, ac yn eu plith ddeuddeg o gyn-ferched ffatrioedd yr ardal, wedi ymgynnull ar gyfer ein sesiwn ar ddydd Gwener 8fed Awst. Croesawyd pawb a chyflwynwyd y sesiwn gan Siân Rhiannon Williams ac yna cafwyd darlun o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn y de-orllewin gan Catrin Stevens, Cydlynnydd y Prosiect. Roedd y sgwrs yn seiliedig ar waith cyfweled Swyddog Maes y rhanbarth hwn, Susan Roberts. Dangoswyd ffotograffau a gasglwyd trwy'r prosiect yn darlunio'r gwaith ar lawr y ffatri e.e. yn Ffatri Chloride, Ponthenri ac yn Ffatri Laeth Felin Fach, ynghyd â llu o luniau o'r bywyd cymdeithasol a oedd yng nghlwm wrth y ffatrioedd hyn yn eu hanterth. Dyfynnwyd o'r cyfweiliadau ac roedd hi'n hyfryd clywed lleisiau rhai o'r menywod eu hunain yn trafod yr anghyfartaledd rhwng amodau gwaith a thâl dynion a menywod; y gwaith caled, undonog; yr agweddau at ferched ffatri a pheryglon y gwaith.

Yn ail ran y sesiwn gwahoddwyd dwy gyn-weithwraig - Eirlys Lewis a fu'n gweithio mewn sawl ffatri, gan gynnwys Vandervill Products, Caerdydd, ac Enid Davies a weithiodd yn ffatrioedd Croydon Asbestos a Deva Dogware - i'r llwyfan i sôn am eu profiadau personol ar lawr y ffatri. Soniodd Eirlys am wrthod caniatáu i gyfraniad o'i thâl undeb hi fynd i goffrau'r Blaid Lafur a hithau'r aelod o Blaid Cymru, a hynny'n ôl yn y chwedegau, a disgrifiodd Enid sut y byddai disgwyl iddi gyrraedd targed o bwytho 3,200 o fenig lledr yr wythnos yn ffatri Croydon Asbestos. Doedd dim sôn bryd hynny am beryglon gweithio mewn ffatri o'r fath! Ymunodd Jaci Gruffudd â nhw i drafod ei rôl fel gwirfoddolwraig yn cyfweled rhai o weithwyr ffatri deganau Mettoy's yn Abertawe. Teimlai i'r profiad fod yn fraint arbennig iddi, a soniodd sut roedd y menywod a holwyd yn gwerthfawrogi bod eu cyfraniad hwy i economi Cymru wedi'r Ail Ryfel Byd yn cael sylw dyladwy o'r diwedd. Ar ddiwedd y sesiwn diolchodd Rosanne Reeves i bawb a fu'n cymryd rhan.



Aelodau o'r adran bacio ffatri Mettoy's, Fforest-fach, Abertawe, 1960au



Jaci Gruffudd, Eirlys Lewis ac Enid Davies – panel sesiwn 'Lleisiau o Lawr y Ffatri'

Edrychwn ymlaen yn awr at sgwrs Kate Sullivan, Swyddog Maes y gogledd, pan fydd yn trafod profiadau merched ffatrioedd ei rhanbarth hi, yn Ffatrioedd Ackroyd Pyjamas, y Bala neu Courtaulds, y Fflint, er enghraifft, yn ein Cynhadledd Flynyddol ym Mangor yn yr hydref.

Catrin Stevens (Cydlynnydd y Prosiect)

LILF vlog <http://womensarchivewalesblog.wordpress.com/>

## Y Bywgraffiadur Cymreig

Hoffai'r Archif longyfarch Elin Jones, aelod o'n Pwyllgor, sydd newydd ei phenodi i Banel Ymgynghorol y Bywgraffiadur Cymreig. Un rheswm dros ei gwahodd i ymuno â'r panel oedd yr angen am wella'r sylw a roir yn y Bywgraffiadur i gyfraniad addysgwyr – a menywod. Mae prinder y cyfeiriadau at fenywod yn y Bywgraffiadur wedi bod yn destun pryder ers amser, ond mae gobaith i bethau wella nawr, gan fod aelod arall o'r Archif, yr Athro Emeritws Angela John, hefyd yn aelod o'r panel hwn.

Gallwch chi gynorthwyo yn y gwaith o gynyddu nifer y menywod a goffeir yn y Bywgraffiadur hefyd trwy anfon enwau a manylion menywod sy'n haeddu cael eu cynnwys at Elin – [elinphillips3@btinternet.com](mailto:elinphillips3@btinternet.com). Mae diddordeb arbennig ganddi i ddechrau mewn derbyn enwau menywod sydd wedi amlygu eu hunain ym maes chwaraeon.



*Beth am Miriam Kate Williams, enw llwyfan Vulcana, [ar y chwith] a anwyd yn y Fenni yn 1875 - menyw gref broffesiynol? Enillodd hi 100 o fedalau yn ystod ei gyrfa (ymddeolodd yn 1932), ac roedd yn arbennig o boblogaidd yn Ffrainc.*

*Caroline Fairclough*

## ... A Rhagor o Longyfarchion

Mae Elin wedi'i henwebu ar gyfer Gwobr Torri Drwodd BAFTA Cymru am ei gwaith yn cyflwyno'r rhaglen ddogfen Cofio Senghennydd, yn coffáu tanchwa Iofaol 1913. Cynhyrchwyd a chyfarwyddwyd y rhaglen gan Catrin Edwards, swyddog maes de-ddwyrain Cymru ein prosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri, ac mae hithau wedi'i henwebu ar gyfer Gwobr Gwyn Alf Williams. Llongyfarchiadau mawr iddynt ill dwy.

## Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol 2014: Dydd Sadwrn 4<sup>ydd</sup> a Dydd Sul 5<sup>ed</sup> Hydref

Mae'r gynhadledd flynyddol eleni yn dathlu 20<sup>fed</sup> Pen-blwydd y cwrs MA mewn Astudiaethau Menywod ym Mhrifysgol Bangor ac yn coffáu dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae nifer o'r siaradwyr yn fyfyrwr cyfredol neu ddiweddar yn yr adran hon ac mae ystod eang a diddorol o bynciau dan sylw.

Cynhelir Cinio'r Gynhadledd ar y nos Sadwrn, yng Nghanolfan Reoli Prifysgol Bangor. Ceir gwybodaeth bellach a ffurflenni archebu ar dudalen Digwyddiadau'r Wefan.

Ar yr un dudalen gwelir Cyfansoddiad newydd arfaethedig AMC/WAW. Bu'n rhaid gwneud y newidiadau bychain ond pwysig hyn i'r Cyfansoddiad oherwydd bod yr Archif yn newid o fod yn elusen anghorfforedig i fod yn Gymdeithas Gorfforedig Elusennol (CGE). Byddwn yn pleidleisio ar y newid hwn yn y Cyfarfod Blynyddol. Mae wedi golygu llawer iawn o waith i Avril Rolph, ond dylai wneud y mudiad yn haws i'w weinyddu. Gwelir y cynnig hwn ar y wefan. Mae'r Adroddiad Blynyddol yno hefyd. Ceisiwch edrych ar y papurau hyn cyn y Cyfarfod Blynyddol os gwelwch yn dda.

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr hwn gan ein holl aelodau. Os gallwch gyflwyno eich erthyglau yn ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at:

[newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org)

**Dyddiad copi ar gyfer y rhifyn nesaf:  
Dydd Gwener 21ain Tachwedd 2014**

Os hoffech gopi print bras o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad ebost uchod, neu ar y ffôn: 01873 890540.

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens ac Elin Jones.

## Menywod a gofnodir ar Gofebion y Rhyfel Byd Cyntaf

Yn ystod y misoedd diwethaf mae aelodau amrywiol o AMC wedi bod yn casglu enwau'r menywod ar gofebion rhyfel y Rhyfel Byd Cyntaf (a'r Ail Ryfel Byd), ac weithiau ar feddau a chofebion eraill. Catrin Stevens sydd wedi cyfrannu rhan fwyaf ohonynt (gan gynnwys sylwi ar un mewn eglwys yn ystod priodas a gofyn i'r ffotograffydd swyddogol ei gofnodi), ond mae gennym ymchwilwyr eraill hefyd. Mae'r rhan fwyaf o'r enwau a gofnodir yn hysbys yn eu hardaloedd, ond rydym ni'n ceisio llunio'r rhestr lawnaf bosibl o ar draws Cymru gyfan.

Mae llawer o'r enwau yn nyrsys, yn Fintai Gymorth Gwirfoddol (neu VAD) yn bennaf. Un o'r rhain oedd Ella Richards o Lanbedr pont Steffan, VAD ers dechrau'r Rhyfel a weithiodd yn Lloegr ac yn yr Aifft, cyn cael ei hanfon i Salonica, lle bu farw o niwmonia yn ystod Hydref 1918, yn 31 oed. Mae'n debyg mai nyrs oedd Ethel Thomas hefyd, a goffeir ar fedd teuluol yng nghladdfa Dan-y-graig, Abertawe. Bu farw wrth ei gwaith ym Mesopotamia, yn 25 oed. Yn rhyfedd iawn, ceir y geiriau hyn ar ei bedd, '*greater love hath no man than this ...*'. Bu farw aelodau eraill o'r Fintai yn nes i gartref, yn fynych oherwydd y fflw Sbaenaidd a anrheithiodd lawer o'r byd yn 1918-19.



Fotograff Catrin Stevens

Boddwyd hithau pan lithrodd y car yr oedd yn teithio ynddo ar rew i mewn i afon Somme ar y 7<sup>fed</sup> o Chwefror, 1919. Coffeir hi ar gofeb

Penarth, ond nid felly dwy weithwraig ffatri ffrwydron, Gwendoline Williams a Sarah Jane Thomas, a laddwyd mewn tanchwa ym mis Ionawr 1919 ym Mhen-bre, ond nas coffeir ar gofeb swyddogol Abertawe.

Erys llawer o'r menywod a gofnodir yn enigma i ni. Er enghraifft, ymysg y deuddeg enw ar y rhestr goffa fechan ar giatau caeau chwarae Gofilon yn sir Fynwy, mae un May Prosser. Does neb yn gwybod pwy oedd hi. Rhestrir rhyw M Prosser yn yr adran Rhanbarthau Gwledig ar gofeb y Fenni, ond nid oes modd mynd ymhellach na hyn.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw ychwanegiadau at y casgliad hwn. Anfonwch nhw os gwelwch yn dda at [caroline\\_fairclough@yahoo.co.uk](mailto:caroline_fairclough@yahoo.co.uk), gyda ffotograff a manylion y lleoliad. Os hoffech gyfeiriadau ar gyfer yr wybodaeth yn yr erthygl hon, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda.

Caroline Fairclough


## Mae angen eich erthyglau arnom

Bydd llawer ohonoch sy'n darllen y Cylchlythyr hwn yn dod ar draws pytiau bychain, diddorol am hanes menywod. Os ydych chi'n un o'r rhain, beth am droi'ch ymchwil yn erthygl fer (gall fod yn erthygl fer iawn; gwnaiff un paragraff y tro), neu hwy i'r Cylchlythyr. Mae cymaint o wybodaeth a thalent yn eich plith. Rhannwch nhw â ni!

Ebostiwch fi: [caroline\\_fairclough@yahoo.co.uk](mailto:caroline_fairclough@yahoo.co.uk)

Grŵp arall a goffeir yw gweithwyr y ffatrioedd arfau. Mae rhestr o weithwyr ar gofeb Abertawe (ar y chwith). Menywod yw'r rhelyw ohonynt, fe ddichon (er nad yw C J Prichard wedi'i hadnabod eto, Mary oedd enw llawn M. Fitzmaurice), a laddwyd llawer ohonynt mewn ffrwydradau yn Ffatri Ffrwydron Genedlaethol Pen-bre. Nid merched ifainc oedd pob un o'r gweithwyr hyn: roedd Edith Copham yn 55 oed, ac roedd gan Mary Fitzmaurice saith o blant.

Nid oedd pob menyw a gofnodir ar y cofebion yn gweithio dros yr ymdrech ryfel. Bodd i wnaeth Mrs J E Howdle o Bantysaer, Ynys Môn, pan suddodd y Lusitania yn 1915 (stiwardes oedd hi) ac fe'i coffeir ar gofeb ryfel Benllech. Cantores oedd Emily Pickford o Benarth a byddai'n diddanu'r lluoedd arfog fel aelod o Barti Cyngerdd Miss Lena Ashwell.



Fotograff Val Wakefield

## Robin Evans

Ym mis Gorffennaf daeth y newyddion trist am farwolaeth Robin Evans, aelod ffyddlon o'r Archif, athro ysbrydoledig, hanesydd ac awdur toreithiog. Hanes y môr oedd ei brif ddiddordeb, a chyfrannodd yn helaeth i'r maes hwnnw trwy ysgrifennu nifer o lyfrau a hefyd trwy sefydlu cymdeithas MOROL, sy'n hybu pob agwedd ar hanes y môr yng Nghymru. Ond roedd Robin hefyd yn rhoi hanes Cymru mewn cyd-destun ehangach. Ysgrifennodd nifer o werslyfrau hanes a gyfunai hanes Cymru a hanes y byd yn yr un cyfnod, yn ogystal â gwerslyfr ar gyfraniad mewnfudwyr i fywyd Cymru ar wahanol adegau yn yr ugeinfed ganrif.

Roedd Robin bob amser yn talu sylw priodol i hanes menywod. Un o'i lyfrau diweddaraf oedd *Merched y Môr* (Gwasg Carreg Gwalch, 2013), sy'n adrodd hanes cyfraniad menywod i bob agwedd ar fywyd cymunedau morwrol Cymru – yn berchnogion llongau, yn deithwyr, yn famau a gwragedd annibynnol oedd yn cynnal teulu a chartref pan oedd eu gwŷr i ffwrdd ar y môr. Teg yw nodi i Robin orffen y llyfr hwn, a llawer o waith arall hefyd, pan oedd yn derbyn triniaeth am y cancr a'i trechodd yn y diwedd. Cofiw'n hanesydd arbennig ac eangfrydig, a pherson dewr ac addfwyn iawn.

Elin Jones

## Audrey Jones

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Audrey Jones ar 16<sup>eg</sup> Awst.

Roedd Audrey yn aelod o AMC / WAW ers y cychwyn; yn ein Cyfarfod Blynyddol cyntaf, a gynhaliwyd yn Amgueddfa Abertawe ar 31ain Hydref 1998, anghytunodd yn gwbl briodol â fersiwn Saesneg ein henw ar y pryd, sef 'Welsh Women's Archive' gan ddadlau bod hanes menywod yng Nghymru yn ymwneud â llawer iawn o fenywod nad oedd yn Gymry – ac felly y mabwysiadwyd yr enw Women's Archive of Wales.

Pan oeddwn yn gweithio gyda'r diweddar Ursula Masson ar Brosiect Hanes Ffeminyddol De Cymru, cododd enw Audrey sawl gwaith fel person y dylwn ei chyfweld, a gwneuthum hynny yn 1997 yn ei chartref yn Ninas Powys. Roedd wedi bod yn ymhél â Phwyllgor Hawliau Menywod Cymru yn yr 1970au, ac arweiniodd hyn yn ei dro at sefydlu Cynulliad Menywod Cymru. Fel athrawes roedd Audrey wedi ymrwymo'n llwyr i gynnig cyfleoedd i ferched a menywod ifainc ym myd addysg; a bu am flynyddoedd lawer yn cyfrannu at waith y Cenhedloedd Unedig ar hawliau menywod ar draws y byd, yn ogystal ag at waith mudiadau menywod mwy lleol.

Yn ystod y blynyddoedd canlynol deuthum ar draws Audrey sawl gwaith, a chynigiais ei henw yn un o fenywod dylanwadol Cymru ar gyfer Prosiect Ymchwil y Llyfrgell Brydeinig a Phrifysgol Sussex *Sisterhood and After: an oral history of the Women's Liberation Movement*. Gellir clywed detholiad o'r cyfweiliad hwn (a recordiwyd ym mis Medi 2011) ar

[www.bl.uk/learning/histcitizen/sisterhood/bioview.html#id=143996&v=true&id=143996](http://www.bl.uk/learning/histcitizen/sisterhood/bioview.html#id=143996&v=true&id=143996).

Siaradodd Deirdre Beddoe ar ran AMC / WAW yn angladd Audrey, a mynychodd Jenny Sabine (Cadeirydd) yr angladd hefyd. Cafwyd ysgrif goffa iddi yn y *Penarth Times* ar 20fed Awst.

Avril Rolph

## Ymdrechion a Delfrydau: Printiau o'r Rhyfel Byd Cyntaf

Ar hyn o bryd mae Amgueddfa Cymru, Caerdydd yn arddangos 66 o brintiau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Prydain yn 1917 i hyrwyddo cefnogaeth a chodi arian at y Rhyfel, gartref a thramor. Cyfrannodd nifer o artistiaid enwocaf Prydain at y prosiect. Mae'r adran Delfrydau ar y cyfan yn symbolaidd ac alegoriâidd, gyda theitlau fel 'Adferiad Serbia' a 'Rhyddid y Môr' ond mae un adran ddiddorol iawn yn dangos gwaith



Delwedd trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru Caerdydd

menywod yn ystod y rhyfel yn yr adran Ymdrechion. Mae'r ddelwedd ar y dde, gan AS Hartrick yn un o dri sy'n darlunio gwaith y ffatrioedd arfau, a'i henw yw 'Creu arfau rhyfel: Llafur Caled (Drilio a Chastio)'. Gwelir menywod ar brintiau eraill hefyd. Tybed a allwch chi weld y weithwraig yn llun Christopher Nevinson 'Cydosod (awyren)'.

Mae'r arddangosfa'n parhau tan 7<sup>fed</sup> Ionawr 1917. Os na allwch chi ddod i Gaerdydd, gellir gweld y

gyfres gyfan ar wefan Amgueddfa Cymru [https://www.museumwales.ac.uk/rhagor/efforts\\_ideals/](https://www.museumwales.ac.uk/rhagor/efforts_ideals/)